

**Pwyllgor Cydweithredol
Rhanbarthol Cwm Taf
Adolygiad Blynyddol
Mehefin 2016**



1. Crynodeb Gweithredol



Cadeirydd – Y Cynghorydd Keiron Montague



Is-gadeirydd – Shelagh Iles

Fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd PCRh Cwm Taf, teimlwn ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol ers cyfnod yr adroddiad blynyddol diwethaf. Mae'r PCRh wedi mynd o nerth i nerth gan sefydlu cyfeiriad clir i'r Rhaglen Cefnogi Pobl. Mae'r Pwyllgor wedi cyflwyno'r rhaglen honno'n effeithiol trwy weithredu ar draws yr awdurdodau, ac mae'n amlwg bod yr aelodau wedi ymrwymo i'r broses dan sylw.

Gweithrediadau

Rydym wedi datblygu nifer o arferion ar y cyd i sicrhau effeithlonrwydd a gwerth am arian fel y gallwn ni ddarparu gwasanaethau effeithiol ac effeithiol ar draws Cwm Taf. Mae is-grwpiau penodol wedi'u sefydlu i ddylanwadu a gwneud penderfyniadau gwybodus

ynghylch dyfodol y ddarpariaeth. Fel PCRh, rhagwelwn y bydd ein Grŵp Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth yn chwarae rôl gynyddol yn y broses ac y bydd yn allweddol i sicrhau bod barn a phrofiadau'r unigolion hynny sy'n defnyddio ein gwasanaethau, wrth wraidd y penderfyniadau a wnawn.

Nodau Strategol y Dyfodol

Byddwn yn rhagweithiol wrth gysylltu gwasanaethau'r Rhaglen Cefnogi Pobl â'r heriau a'r cyfleoedd a ddaw yn sgil gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ynghyd â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Byddwn hefyd yn rhagweithiol wrth sicrhau bod agendâu ataliol Llywodraeth Cymru ar gyfer Trechu Tlodi a Cham-drin Domestig, yn gyson â'r Rhaglen Cefnogi Pobl er mwyn sicrhau'r deilliannau gorau posibl i drigolion Cwm Taf.

Bydd yr hinsawdd o gyni ariannol yn herio pob un o'r partneriaid; fodd bynnag, trwy gydweithio ac arloesi mwy, mae PCRh Cwm Taf wedi ymrwymo i ymateb i'r her hon yn gadarnhaol.

Bydd diwallu anghenion trigolion yn y dyfodol nid yn unig yn golygu gweithio mewn gwahanol ffyrdd, ond bydd hefyd yn golygu ein bod yn gweithredu ac yn arloesi mewn dulliau cwbl newydd wrth ymateb i'r heriau sy'n wynebu cymunedau ac unigolion. Mae PCRh Cwm Taf yn ymwybodol o'r heriau sy'n ein hwynebu a thrwy weithio'n gydweithredol ac yn benderfynol, rydym yn sicr y gallwn fynd i'r afael â'r heriau hyn, er budd y rhai mewn angen.

2. Rhagarweiniad

Mae Canllawiau Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl (SPPG) (Mehefin 2013) yn datgan ei fod yn ofynnol i Bwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol ar draws Cymru gyflwyno adroddiadau blynyddol/rheolaidd i'r Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl (SPNAB), er mwyn hysbysu'r Gweinidog o gynnydd pob PCRh. Mae'r PCRh yn rhan o strwythur llywodraethu cyffredinol yr SPPG, ac mae'r strwythur presennol i'w weld ar wefan Llywodraeth Cymru sef: <http://wales.gov.uk/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/supporting-people/programme-structure/?lang=cy>

Bydd yr Adolygiad Blynyddol hwn yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016. Bydd yn rhoi diweddariad i'r SPNAB ynghylch datblygiadau ac yn rhoi asesiad gonest o'r hyn a weithiodd yn dda a'r meysydd sydd angen i PCRh Cwm Taf wella arnynt. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchiad o holl gynrychiolwyr PCRh Cwm Taf - mae pob aelod, dirprwy aelod, aelod cyfetholedig ac ymgynghorydd wedi cael y cyfle i gyflwyno'u sylwadau a'u hargymhellion ynglŷn â PCRh Cwm Taf.

Mae Canllawiau Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl (SPPG) (Mehefin 2013) yn nodi nifer o feysydd cyfrifoldeb ar gyfer PCRhau ledled Cymru ynghyd â'r egwyddorion "lefel uchel". Rhestrir y rhain isod.

Dyma'r meysydd cyfrifoldeb lle disgwylir i'r PCRh adrodd i'r SPNAB yn eu cylch:

1. Cynghori
2. Argymell

3. Cynllunio
4. Gosod Blaenoriaeth
5. Aelodaeth a Phresenoldeb.

Dyma egwyddorion lefel uchel y PCRh:

1. Gwella gwasanaethau a chanlyniadau ar gyfer y defnyddiwr
2. Sicrhau uniondeb, atebolrwydd, eglurder a chraffu
3. Gweithredu ar sail cydraddoldeb, cydweithrediad a chydgyhyrchiad
4. Darparu arolygiaeth a chyfeiriad strategol yn unol â strategaeth genedlaethol, rhanbarthol a lleol yn ogystal â Chynlluniau Comisiynu'r Rhaglen Cefnogi Pobl
5. Eu bod ar sail, ac yn cydymffurfio ag, amodau grant cadarn y gellir eu gorfodi.

Mae Cwm Taf yn cynnwys dau awdurdod lleol: Merthyr Tudful (yr awdurdod arweiniol) a Rhondda Cynon Taf. Fe'u cwmpasir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a Heddlu De Cymru.

3. Astudiaethau Achos

Enghraifft 1: Adolygiadau perthnasedd strategol y Rhaglen Cefnogi Pobl yng Nghwm Taf

Roedd adolygiadau perthnasedd strategol yn flaenoriaeth i'r PCRh er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau presennol yr oeddem yn eu darparu trwy'r Rhaglen Cefnogi Pobl, yn cynnig gwerth am arian ac yn cwrdd ag anghenion ein defnyddwyr.

Awgrymodd y PCRh y dylid comisiynu'r un ymgynghorydd a ddefnyddiwyd i gwblhau'r adolygiadau perthnasedd strategol ar gyfer Merthyr Tudful ar draws y rhanbarth, er cysondeb wrth ymdrin â darparwyr gwasanaeth, defnyddwyr gwasanaeth a'r fframwaith adrodd i'r PCRh.

Comisiynwyd hyn a dechreuodd yr adolygiadau perthnasedd strategol yn Rhondda Cynon Taf yn 2015.

YR HYN A WEITHIODD YN DDA

Mae gennym un prosiect sy'n cwmpasu'r rhanbarth ac mae llawer o ddarparwyr yn cyflwyno'u gwasanaethau yno. Felly, trwy gomisiynu'r un ymgynghorydd i gwblhau pob adolygiad, cafodd darparwyr a defnyddwyr y gwasanaethau gysondeb o ran y broses adolygu.

Mae'r broses hon hefyd wedi caniatáu i adroddiadau, diweddariadau ac argymhellion gael eu cyflwyno i'r PCRh ar gyfer craffu a phenderfynu pellach.

YR HYN A GYFLAWNWYD

Cwblhawyd Adolygiad Strategol Merthyr Tudful yn 2014 ac roedd y Grŵp Cynllunio Lleol yn gweithio trwy'r argymhellion ar gyfer 2015.

Roedd Adolygiad Strategol Rhondda Cynon Taf ar y gweill ac yn ôl yr amserlen, disgwylid ei orffen ym mis Gorffennaf 2016. Caiff adroddiadau eu cyflwyno ar ôl pob adolygiad.

Unwaith y bydd adolygiadau pob grŵp cleient wedi'u cwblhau yn Rhondda Cynon Taf, cytunwyd y bydd yr holl argymhellion yn cael eu rhannu ar draws y rhanbarth ac y byddant ar gael i Banel Craffu'r PCRh er mwyn iddo ganfod arbedion effeithlonrwydd a phrosiectau rhanbarthol posibl. Dyma'r 2 grŵp cleient cyntaf:

- Cam-drin Domestig
- Iechyd Meddwl

Mae'r gwaith hwn wedi dylanwadu ar benderfyniadau comisiynu, dadgomisiynu ac ad-drefnu a bydd yn parhau i wneud hynny ar gyfer 2016 a 2017.

Y GWERSI A DDYSGWYD

Gyda chyllidebau yn parhau i ostwng a galwadau'n newid, mae'n hanfodol ein bod yn darparu gwasanaethau sy'n strategol berthnasol. Mae hyn hefyd yn rhoi cyfle i ad-drefnu gwasanaethau a threialu gwasanaethau newydd a all effeithio ar yr agenda ar gyfer atal ac ymyrryd yn gynnar.

Enghraifft 2: PCRh Cwm Taf a Meithrin Cysylltiadau â'r Rhaglenni Trechu Tlodi

Yn 2014, arweiniodd y Dirprwy Weinidog dros Dlodi waith oedd yn edrych ar ddatblygu Fframwaith Deilliannau Cyffredin ar draws y 3 prif raglen oedd yn ymwneud â threchu tloidi er mwyn:

- canfod deilliannau a mesurau cyffredin a fyddai'n canolbwyntio ar yr agenda trechu tloidi ac yn cefnogi'r dasg o gysoni'r rhaglenni;
- rhoi'r cymorth a'r modd i gydweithio'n well er mwyn cyflwyno'r ddarpariaeth yn effeithiol a chynnig deilliannau gwell i'r rhai mwyaf anghenus.

Yn unol â hyn a chyfarwyddeb y Gweinidog newydd dros Gymunedau a Threchu Tlodi i integreiddio'r rhaglenni tloidi, gwnaeth PCRh Cwm Taf gynnal Sesiwn Gynllunio ar gyfer Trechu Tlodi gan wahodd cynrychiolwyr o'r Rhaglenni Trechu Tlodi ar draws y rhanbarth.

Prif ffocws y sesiwn oedd:

- Y Fframwaith Deilliannau Cyffredin a meithrin cysylltiadau â'r Rhaglen Cefnogi Pobl

YR HYN A WEITHIODD YN DDA

Cafwyd cyflwyniadau ar y canlynol:

- Gweithio'n Agosach - Cymunedau a Threchu Tlodi

- Trechu Tlodi - trawsnewid y ddarpariaeth ar draws Rhondda Cynon Taf
- y Fframwaith Deilliannau Cyffredin.

Cafwyd pwyntiau trafod ar weithio'n agosach ar draws y rhaglenni a gwnaed y pwyntiau gwerthfawr canlynol:

- Mae'n amlwg bod y pwysau sy'n ymwneud â gweithio'n agosach rhwng Rhaglenni Trechu Tlodi wedi cynyddu.
- Mae angen mecanwaith arnom i rannu data ar amcanion a deilliannau strategol drwodd draw.
- Mae angen gweithredu mewn dull symlach.
- Ceir anawsterau wrth uno rhaglenni oherwydd y gwahanol linellau amser sy'n ymwneud â chyllid - a allai Llywodraeth Cymru wneud hyn yn symlach?
- Ceir anawsterau wrth gydgyssylltu cynlluniau gan fod pob cynllun yn meddu ar benawdau set gwahanol.
- Ceir anawsterau wrth ddrafftio cynlluniau pan na chytunwyd ar gyllid, a gallai hynny arwain at ddyblygiad wrth i raglenni gynllunio ar wahanol adegau.
- Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau ar gyfer pob rhaglen ar wahân. A fyddai modd cyfuno'r rhain neu gyfeirio at raglenni perthnasol eraill yn y canllawiau?
- Pam na ellir cysylltu'r Cynllun Comisiynu Rhanbarthol â'r Cynllun Llesiant ar gyfer y Cynllun Integredig Sengl?
- Mae anghenion lleol mor bwysig ac o'r herwydd, mae'n rhaid asesu popeth wrth gydgyssylltu rhaglenni er mwyn sicrhau bod gennym y gwasanaethau cywir.
- A fyddai modd cael un cynllun strategol cyffredinol gyda'r cynlluniau gweithredol yn "gorwedd oddi tano".
- Cydgomisiynu - mae hyn eisoes yn digwydd yng Nghaerffili a Thorfaen.
- A oes cyfyngiadau ar dreialu cynlluniau newydd ar draws rhaglenni neu a fyddai hyn yn hyblyg?

YR HYN A GYFLAWNWYD

Roedd rhannu'r Fframwaith Deilliannau yn ffordd newydd o adrodd ynghylch y Rhaglenni Trechu Tlodi ac yn gyfle i edrych ar y modd y gellid cysylltu â rhai o ddeilliannau'r Rhaglen Cefnogi Pobl.

Datblygwyd fframwaith a fyddai'n monitro'r deilliannau a rennir ar draws y pedair rhaglen isod sy'n mynd i'r afael â thlodi.

Deilliannau a Rennir	Cefnogi Pobl	Cymunedau'n Gyntaf	Teuluoedd yn Gyntaf	Dechrau'n Deg
1. Cyflawni deilliannau addysgol da.	Ymgymryd ag addysg a dysgu	Cymunedau Dysgu	Deilliant 2 Mae plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi neu mewn perygl o wneud, yn gwireddu eu potensial	Deilliant 3 Plant Dechrau'n Deg yn gwireddu'u potensial
2. Sicrhau incwm digonol a chael hyd i waith sy'n talu.	Rheoli arian Ymgymryd â chyflogaeth neu waith gwirfoddol	Cymunedau Llewyrchus	Deilliant 1 Pobl o oedran gweithio mewn teuluoedd incwm isel yn ennill cyflogaeth	

			ac yn gwneud cynnydd yno	
3. Cyflawni dyfodol llewyrchus ac iach.	Teimlo'n ddiogel Yn gorfforol iach Arwain ffordd fwy gweithgar o fyw Yn feddyliol iach	Cymunedau lachach	Deilliant 3 Mae plant, pobl ifanc a theuluoedd yn iach ac yn cael blas ar lesiant Deilliant 4 Mae teuluoedd yn hyderus, yn feithringar, yn gryf ac yn ddiogel	Deilliant 1 Mae plant Dechrau'n Deg yn iach ac yn ffyniannus Deilliant 2 Mae teuluoedd Dechrau'n Deg yn abl ac yn ymdopi
4. Byw mewn amgylchfyd saff a diogel.	Rheoli perthnasoedd personol Cyfrannu at eu diogelwch a'u llesiant eu hunain ac eraill			
Y Fframwaith Ymgysylltu	Teimlo'n rhan o'r gymuned			

Trwy weithredu'r fframwaith deilliannau a rennir, byddai disgwyl i'r rhaglenni:

- osgoi dyblygiad a chryfhau cysondeb y Rhaglenni Trechu Tlodi;
- hwyluso'r dasg o ganfod bylchau yn y ddarpariaeth a'u llenwi;
- cyflwyno ymyriadau cyflenwol a chynnal llwyddiant.

Y GWERSI A DDYSGWYD

- Dylai'r PCRh ymwneud ag Agendâu Trechu Tlodi ar draws Cwm Taf.
- Dylai pob Asesiad o Anghenion gael ei rannu gyda'r PCRh ar gyfer cynllunio i'r dyfodol.
- Dylid gwahodd yr Arweinydd ar Drechu Tlodi i gyfarfodydd y PCRh yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod cysylltiadau yn cael eu creu.
- Dylid edrych ar ffyrdd y gallem symud adnoddau i gysoni'r rhaglenni hyn.

4. Sut mae cynnwys y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau

Ers gweithredu'r Fframwaith ar gyfer Ymgysylltu Defnyddwyr Gwasanaeth Cwm Taf, teimlai'r PCRh yn gryf y dylid sicrhau bod defnyddwyr yn rhan o'r broses sy'n ymwneud â phenderfynu a chynllunio'r gwasanaethau hyn - gwasanaethau y byddant yn eu defnyddio ac a all effeithio arny'n nhw.

Comisiynodd y PCRh ddarn o waith gyda HouseMark ar draws y rhanbarth i ganfod beth sy'n wirioneddol bwysig i ddefnyddwyr o ran gwasanaethau cefnogi, ac i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn cymryd rhan lawn yn y gwaith o gynllunio gwasanaethau cefnogi pobl i'r dyfodol. Mae darparwyr cymorth eisoes yn cynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn dda, felly roeddem am achub y cyfle i ymgynghori â phobl mor eang â phosib. Cysylltodd HouseMark â 400 o ddefnyddwyr gwasanaethau gan gyfeirio at 53 o wahanol wasanaethau a 18 o ddarparwyr ar draws Cwm Taf.

YR HYN A WEITHIODD YN DDA

Gwyddom y byddai defnyddwyr yn teimlo'n fwy cysurus yn siarad â'u staff cymorth yn hytrach nag ymchwilydd allanol. Y dull mwyaf ymarferol o glywed oddi wrth y nifer mwyaf posib oedd cynnal digwyddiadau ymgynghori lleol dan reolaeth y darparwyr. Fodd bynnag, roeddem yn hyblyg ynghylch y modd yr oedd darparwyr yn cynnal yr ymgynghoriad, ar yr amod eu bod yn ymdrin â chwestiynau penodol. Y nod unwaith eto oedd cynnwys cynifer o bobl â phosib trwy ddefnyddio gwahanol fathau o ymgynghori a fyddai'n gweddu orau i'r grwpiau o gleientiaid dan sylw.

- Datblygwyd canllawiau drafft i ddarparwyr ynghyd â ffurflen gasglu a chrynhoi i ddefnyddwyr. Roeddem am gefnogi sefydliadau wrth iddynt gynnal yr ymgynghoriadau gan roi digon o hyblygrwydd i'w defnyddwyr ond gyda digon o strwythur i sicrhau y gallem gasglu a chymharu ymatebion.
- Yna, fe gynhalion ni grŵp ffocws peilot ein hunain gyda detholiad o ddefnyddwyr y gwasanaethau gofal. Yn dilyn hynny, fe wnaethom ni fireinio ein dulliau, gan sicrhau bod darparwyr yn glir ynglŷn â'r hyn oedd yn rhaid iddynt ei wneud a pha gwestiynau oedd ganddynt i'w gofyn i ddefnyddwyr.
- Gan fod hyn yn ymarfer ymgynghori helaeth gyda llawer o ddarparwyr, gwasanaethau a defnyddwyr, fe wnaethon ni gefnogi darparwyr trwy gydol y broses. Hefyd, fe wnaethon ni gwrdd â nifer o sefydliadau yn y Fforwm Darparwyr Rhanbarthol.
- Ar ôl derbyn nifer sylweddol o ymatebion, aethom ati i'w dadansoddi, yn ôl grŵp cleientiaid yn enwedig, ond fe wnaethon ni hefyd ddidoli themâu oedd yn codi dro ar ôl tro sef, y math o wasanaeth neu ddarparwr.

YR HYN A GYFLAWNWYD

Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori helaeth gyda rhyw 400 o ddefnyddwyr y Rhaglenni Cefnogi Pobl gan gyfeirio at 53 o wasanaethau a 18 o ddarparwyr ar draws Cwm Taf.

Ar ôl derbyn nifer sylweddol o ymatebion, aethom ati i'w dadansoddi, yn ôl grŵp cleientiaid yn enwedig, ond fe wnaethon ni hefyd ddidoli themâu oedd yn codi dro ar ôl tro sef, y math o wasanaeth neu ddarparwr. At ei gilydd, cafwyd ymatebion ar lefel gwasanaeth, er y bu'n rhaid inni hefyd grynhoi ymatebion gan ddefnyddwyr unigol o fewn rhai cynlluniau.

Roedd y gwaith hwn yn adeiladu ar rwydweithiau sy'n cynnwys defnyddwyr gwasanaeth ac a weithredir gan ddarparwyr fel modd i drosglwyddo sylwadau i gynllunwyr a chomisiynwyr strategol. Mae hyn wedi arwain at gynnwys y blaenoriaethau a nodwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn y manylebau/contractau gwasanaeth ar draws y rhanbarth.

Y GWERSI A DDYSGWYD

Dylid ymgysylltu â darparwyr a chymryd i ystyriaeth eu safbwyntiau a'r effaith bosibl y gallai toriadau ariannol i'r Rhaglen Cefnogi Pobl gael ar ddyfodol y gwasanaethau hynny a gyflwynir trwy'r ffrwd ariannu hon.

Mae'n bwysig ymgynghori â darparwyr, rhanddeiliaid a defnyddwyr wrth ddatblygu, cynllunio ac ad-drefnu gwasanaethau fel ein bod yn diwallu anghenion cyffredinol y defnyddwyr trwy ddarparu'r gwasanaethau cywir ar y lefel gywir.

5. Datblygu Gwasanaeth

Fel rhan o'r Adolygiad Blynyddol, ac i fodloni'r gofynion sy'n ymwneud ag adrodd i Lywodraeth Cymru, mae'n ofynnol inni ddarparu manylion ychwanegol am y canlynol:

1. Sut mae penderfyniadau wedi'u dylanwadu gan gynllun gwariant, dadansoddiad o anghenion, deilliannau a ffynonellau data eraill? Pa newidiadau a gafwyd yn sgil hyn?

Mae'r ddau Dîm Cefnogi Pobl wedi gweithredu llwybr a system atgyfeirio canolog. Mae'r system hon yn casglu'r holl atgyfeiriadau ar gyfer y Rhaglen Cefnogi Pobl ac yn olrhain y data angenrheidiol i ganfod yr anghenion cyffredol a'r newid yn y galw amdanynt.

Yna, gellir casglu'r data hwn oddi wrth y Timau Cefnogi Pobl a'i gyflwyno i'r PCRh mewn fformat cyson wrth iddo wneud penderfyniadau ynghylch ei gynllunio strategol.

Mae'r Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol a'r Arweinwyr Cefnogi Pobl yn cyflwyno gwybodaeth am gynlluniau gwariant yn rheolaidd i'r PCRh ynghyd â data perthnasol, dadansoddiad o ddeilliannau, crynodeb o wybodaeth adolygol y darparwr, ac argymhellion. Bydd hynny'n llywio ac yn cynorthwyo unrhyw benderfyniadau a wneir yn y dyfodol o ran darparu gwasanaethau'r Rhaglen Cefnogi Pobl.

Fel rhan o gynlluniau'r PCRh ar gyfer y Cynllun Comisiynu Rhanbarthol yn 2016/2017, cynhaliwyd Diwrnod Cynllunio PCRh lle'r oedd y prif ffocws ar:

Toriadau Cyllid:

Ein ffocws fel PCRh fydd y ffordd rydym yn rheoli toriadau cyllid i'r rhaglen yn y dyfodol, y ffordd rydym yn cynllunio ar gyfer y gwaethaf, a'r ffordd rydym yn ymgysylltu â byrddau rhanbarthol a darparwyr gwasanaethau eraill.

Y Camau y Cytunwyd Arnynt:

- Fel PCRh, mae angen i ni fod yn llawer mwy diffiniedig/rhagnodol ar ystyr Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai (HRS) a pha wasanaethau yr ydym yn eu darparu
- Fel PCRh, mae angen i ni ddatblygu ein deilliannau ystyrion ein hunain
- Caiff arolwg ei ddrafftio a'i ddsbarthu i Dimau Cefnogi Pobl a darparwyr gwasanaeth.

Deilliannau hyd yma:

- Mae Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl Rhondda Cynon Taf wedi bod yn gwneud rhywfaint o waith ar ddatblygu a gweithredu'r ddogfen "Gweithgareddau a Ganiateir i Gefnogi Pobl" yn seiliedig ar ddogfen Gwent. Mae Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl Merthyr Tudful yn hapus i fabwysiadu'r broses hon a datblygu hyn fel dogfen ranbarthol.

Blaenoriaethau Rhanbarthol ar gyfer y Cynllun Comisiynu Rhanbarthol:

Fel PCRh, mae angen inni ganfod a chytuno ar ein blaenoriaethau am y 3 blynedd nesaf ar gyfer y Cynllun Comisiynu Rhanbarthol.

Blaenoriaethau Cytunedig y Cynllun Comisiynu Rhanbarthol:

Mae dadansoddiad o ddata'r Rhaglen Cefnogi Pobl a gasglwyd ar draws Cwm Taf yn dangos bod angen rhoi'r flaenoriaeth a'r arweiniad pennaf i'r grwpiau cleientiaid canlynol:

- Iechyd meddwl.
- Digartrefedd.
- Cam-drin Domestig.
- Hanes Troseddu.

Nodwyd blaenoriaethau PCRh Cwm Taf ar gyfer 2016/2017 yn Sesiwn Gynllunio'r PCRh a gynhaliwyd ym mis Medi 2015 ac fe'u hamlinellir isod:

- Ffurio perthynas waith agosach gyda'r Rhaglenni Trechu Tlodi a monitro gweithrediad y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i nodi ffyrdd o symleiddio gwasanaethau a chydweithio posibl.
- Archwilio opsiynau ynglŷn â'r Fframwaith Deilliannau a Rennir a'r modd y mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn cyd-daro â hyn.
- Gweithredu'r cyfrifiannell cost ar draws y rhanbarth.
- Datblygu cynllun strategol i ganfod arbedion ar gyfer unrhyw doriadau i'r gyllideb yn y dyfodol.
- Ystyried opsiynau ar gyfer comisiynu Gwasanaethau Cefnogi Pobl yn rhanbarthol.
- Gwella'r gwaith o fonitro deilliannau ar draws y rhanbarth er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n gallu dangos yn glir eu hansawdd yn ogystal â'u heffaith ar ddefnyddwyr.
- Archwilio opsiynau ar gyfer datganoli cyfrifoldeb i ranbarthau'r Timau Cefnogi Pobl.

Mae'r PCRh hefyd yn ceisio gweithredu contractau wrth yr awr yn hytrach nag unedau, yn ogystal â chynnal asesiadau gwerth-am-arian a mwy o graffu, er mwyn sicrhau bod arian yn cael ei wario ar Wasanaethau Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai.

2. Pa waith Rhanbarthol ac Is-ranbarthol (ar gyfer PCRhau â mwy na 2 awdurdod lleol) sy'n cael ei gomisiynu a sut mae gwasanaethau wedi gwella ers yr Adroddiad Blynyddol diwethaf hyd at fis Mawrth 2015?

Prosiectau Rhanbarthol

Cymorth yn ôl yr Angen

Cytunwyd a chomisiynwyd y Prosiect Rhanbarthol cyntaf ar gyfer Cwm Taf yn 2014. Cyflwynwyd y prosiect hwn fel peilot am 6 mis ac oherwydd ei lwyddiant a'r angen parhaus amdano, fe'i comisiynwyd fel prosiect rhanbarthol yn 2015. Mae'r prosiect hefyd wedi'i gomisiynu ar gyfer 2016; fodd bynnag, oherwydd yr Adolygiad Perthnasedd Strategol, gostyngwyd y cyllid (i MT) heb unrhyw effaith ar y ddarpariaeth na'r gwasanaeth cefnogol.

Tai â Chymorth

Cyflwynwyd cynnig i'r PCRh yn 2015 am Brosiect Tai â Chymorth newydd yn Rhondda Cynon Taf. Cafodd y prosiect newydd hwn ei gytuno gan y PCRh mewn egwyddor gan awgrymu y dylid ystyried ei weithredu fel prosiect rhanbarthol. Rhannwyd manyleb y gwasanaeth a'i gyflwyno gerbron Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl Merthyr Tudful ac fe wnaethant hwythau hefyd gytuno mewn egwyddor i'w gomisiynu fel prosiect rhanbarthol.

Cofrestr Barod

Fel rhan o'r gwaith parhaus i ddatblygu prosiectau ar draws y rhanbarth, mae Grŵp Cynllunio a Chomisiynu'r PCRh wedi croesawu cynigion i'w hystyried ar gyfer "Cofrestr Barod Cwm Taf". Mae hyn yn llwyddiannus ar gyfer prosiectau lleol os ceir "llithrant" yn ystod y flwyddyn, ac at hynny, yn 2015, ystyriwyd prosiect posibl yn ymwneud ag Iechyd Meddwl Rhanbarthol.

Rhwystrau/Heriau

Cymorth yn ôl yr Angen

Mae'r prosiect hefyd wedi'i gomisiynu ar gyfer 2016; fodd bynnag, oblegid yr Adolygiad Perthnasedd Strategol a'i gasgliadau, argymhellwyd y dylid gostwng y cyllid ar gyfer y prosiect hwn gan nad oedd y gwasanaeth yn cynnig gwerth am arian. Cytunwyd ar hyn gan Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl Merthyr Tudful a'r PCRh, a gostyngwyd y cyllid (i MT) heb unrhyw effaith ar y ddarpariaeth na'r gwasanaeth cefnogol.

Tai â Chymorth

Cytunodd y PCRh i gydgomisiynu Prosiect Tai â Chymorth. Fodd bynnag, pan ymgynghorodd Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl Merthyr Tudful ynghylch y prosiect newydd hwn gyda darparwyr a defnyddwyr y gwasanaethau, fe ddaeth i'r amlwg nad oedd y galw yn ddigon uchel ar gyfer prosiect o'r fath. Felly, teimlodd y PCRh nad oedd ei gydgomisiynu yn ymarferol ar hyn o bryd.

Sut gwnaethon ni oresgyn y rhain?

Cymorth yn ôl yr Angen

Lleihawyd yr arian; fodd bynnag, ni chafwyd unrhyw effaith ar ddarparu gwasanaethau i'n defnyddwyr.

Tai â Chymorth

Cytunodd y PCRh na fyddai'r prosiectau'n cael eu comisiynu ar draws Cwm Taf. Fodd bynnag, roedd yr angen am y prosiect yn amlwg yn Rhondda Cynon Taf, felly comisiynwyd hyn fel prosiect RhCT ar gyfer 2016/2017.

3. Sut gallwch chi ddangos bod dulliau ymyrryd ac atal yn cael eu gweithredu'n gynharach, e.e. a yw'r gymhareb "safle sefydlog"/"cymorth yn ôl yr angen" wedi newid yn ystod y 12 mis diwethaf?

Mae gweithredu Deddf Tai (Cymru) wedi gorfodi diwygiad i'r gyfraith ar ddigartrefedd, gan gynnwys rhoi dyletswydd gryfach ar awdurdodau lleol i atal digartrefedd a chaniatáu iddynt ddefnyddio llety addas yn y sector preifat. Mae hyn wedi caniatáu "system porth" symlach gydag atgyfeiriadau digartrefedd ar gyfer y sawl sydd â dyletswydd i sicrhau eu bod yn derbyn gwasanaeth.

Mae **Prosiect Ymyriad y Rhondda** wedi'i ailfodelu yn dilyn adolygiad o drefniant peilot gyda'r Ganolfan Cynghori ar Dai a roddai cefnogaeth gynnar i unigolion sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref.

Nod y gwasanaeth newydd yw darparu ymyriad cynnar i unrhyw un sydd mewn perygl o golli'u cartref ac mae'n cynnwys:

- cefnogaeth sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod yr holl gamau gweithredu angenrheidiol yn cael eu cynnal yn gynnar i helpu pobl gyrchu'u cartrefi eu hunain ac aros ynddynt;
- cydweithio'n effeithiol gyda'r Swyddogion Atebion Tai, y Swyddogion Tai a'r partneriaid allweddol i gyflawni deilliannau cadarnhaol ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth;
- cysylltu'n effeithiol ag asiantaethau a grwpiau eraill megis yr Adran Gwaith a Phensiynau, Cronfa Cymorth Dewisol, Adran Budd-dal Tai, CAB;
- pryd bynnag y bo modd, byddir yn sicrhau cynhwysiant ariannol i ddefnyddwyr gwasanaethau mewn partneriaeth ag asiantaethau perthnasol, h.y. Cymunedau'n Gyntaf;
- sicrhau bod cleientiaid yn cael cymorth i osod eu tenantiaethau newydd;
- darparu gwasanaeth cymorth cysylltiedig â thai i bobl sy'n byw mewn tai a rennir;
- darparu gwasanaeth cymorth i bobl sydd wedi'u lleoli mewn llety gwely a brecwast a llety ar brydles.

Bydd y gefnogaeth yn cael ei gynnig am hyd at 12 wythnos a bydd yn canolbwyntio ar helpu cleientiaid i ddelio â materion brys a chyflwyniadol er mwyn iddynt osgoi colli llety.

Mae yna hyblygrwydd o ran ymestyn cefnogaeth lle bo angen gwneud hynny, er na fwriedir i'r prosiect hwn ddarparu cymorth hirdymor i faterion sy'n gysylltiedig â thai. Rhagwelir y bydd y gweithiwr cymorth yn ymwneud yn agos â Swyddogion Tai er mwyn sicrhau cyfathrebiad effeithiol wrth ddiwallu anghenion hirdymor y cleient.

Mae'r prosiect Cam wrth Gam yn bartneriaeth ar y cyd rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Mind Merthyr a'r Cymoedd, gyda chyllid ar gael trwy'r Oak Foundation am dair blynedd.

Bydd y prosiect newydd yn cynorthwyo aelwydydd un person ac mae'n ddyletswydd ar yr awdurdod lleol i'w cynorthwyo o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

- *Adran 66 - Dyletswydd i gynorthwyo i atal ceisydd rhag dod yn ddigartref.*
- *Adran 73 - Dyletswydd i gynorthwyo i sicrhau llety ar gyfer ceiswyr digartref.*

Gall atal digartrefedd helpu i osgoi'r effaith negyddol sylweddol a all ddigartrefedd gael ar, er enghraifft, iechyd, addysg, cyfleoedd cyflogaeth a llesiant yr unigolyn. Mae ymyriad cynnar felly'n fuddiol i'r rheiny dan fygythiad o ddigartrefedd, a gall arwain at arbedion uniongyrchol i awdurdodau lleol a gwasanaethau cyhoeddus eraill.

Prif nod y prosiect yw gweithio gydag aelwydydd un person sydd dan fygythiad o fod yn ddigartref, er mwyn cynorthwyo a chefnogi'u camau rhesymol i sicrhau llety amgen neu eu hatal rhag colli'u llety presennol.

Mae'r prosiect yn cael ei werthuso gan Brifysgol De Cymru a fydd yn ceisio deall yr effaith ar anghenion iechyd ehangach yr unigolion yn ogystal â'u llesiant a'u hiechyd meddwl, ar ddechrau ac ar ddiwedd y gefnogaeth.

Mae unedau sy'n cynnig "cymorth yn ôl yr angen" wedi cynyddu ar draws y rhanbarth, a chynhelir trafodaethau parhaus ar yr angen i gydweithio o fewn Merthyr Tudful wrth ddewis darparwyr a thai a all gefnogi ymyriadau mewn cyfnodau o argyfwng.

Rhwystrau/Heriau

- Mae rhai darparwyr yn orddethol ac amddiffynnol o'u gwasanaethau a'u hariannu eu hunain.
- Diwylliant y defnyddwyr gwasanaeth sy'n anfoddog o gael cefnogaeth yn gynharach a derbyn bod angen cymorth arnynt.
- Meddylfryd "seilo".
- Camwybodaeth.

Sut gwnaethom ni oresgyn y rhain?

- Ar dafod leferydd.
- Gall rhwystrau godi wrth geisio egluro'r hyn y mae gwasanaeth yn ei wneud.

Sylwadau

Mae angen i ni ledaenu'r sôn am y gwasanaethau yn ehangach ac yn y manau cywir.

4. Pa gysylltiadau sydd gan y PCRh â'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaethau Iechyd yn y rhanbarth? A fu unrhyw gydgomisiynu gwasanaethau neu grynhoi adnoddau? Os felly, a allwch chi roi manylion am y prosiectau?

Mae gan PCRh Cwm Taf gynrychiolwyr strategol o'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaethau Iechyd sy'n aelodau o'r PCRh a Grwpiau Cynllunio Lleol y Rhaglen Cefnogi Pobl. Mae aelodaeth yr holl fyrdau'n cynnwys yr un cynrychiolwyr ac mae hynny'n hwyluso cysondeb a'r prosesau cynllunio.

Datblygwyd Datganiad Cydgomisiynu ar gyfer Gwasanaethau Pobl Hŷn Cwm Taf sy'n disgrifio'r ymrwymiad cryf a rennir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf er mwyn sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn integredig ac yn ddi-dor ar gyfer ein poblogaeth hŷn. Rydym yn cydnabod rôl amhrisiadwy sefydliadau'r Trydydd Sector a chyd hyn mewn golwg, rydym wedi datblygu ein Datganiad Comisiynu gyda synnwyr o bartneriaeth.

Rydym wedi cydgomisiynu ymgynghorydd annibynnol i gwblhau adolygiadau o'r gwasanaethau presennol ar draws Cwm Taf. Bydd hyn yn sefydlu a yw cyllid yn cael ei ddefnyddio'n briodol ar gyfer gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai a gweithgareddau cymwys eraill. Rydym yn bwriadu cyd-ddatblygu dogfen ar Weithgareddau a Ganiateir ar draws y rhanbarth i gynorthwyo'r broses hon a byddwn yn rhannu dogfen Gwent fel arfer da.

Rhwystrau/Heriau?

- Trefniadaeth hanesyddol am flynyddoedd lawer.
- Cyhoeddir cyllidebau bob blwyddyn gydag ansicrwydd yn eu cylch tan yr awr olaf
- Diffyg eglurder ynghylch llywodraeth leol o ran ad-drefnu a chydweithredu.
- Ansicrwydd ynghylch diwygio lles.

Sut gwnaethon ni oresgyn y rhain?

- Yn unol â hynny, cynllunio gystal ag y gallwn heb ddyraniadau cyllidebol.
- Comisiynu a chyfathrebu cydgysylltiedig ac ategol rhwng rhanddeiliaid.
- Cynllunio ar gyfer y newidiadau a'r goblygiadau a ddaw yn sgil diwygio lles.

5. Pa gysylltiadau a wnaed gyda grwpiau strategol/cynllunio rhanbarthol eraill a pharatoadau sydd wedi'u gwneud i gydweithio rhwng y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant?

Mae PCRh Cwm Taf wedi creu cysylltiadau sylweddol â Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cwm Taf sef y bwrdd sy'n gyfrifol am weithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Gwahoddwyd y Swyddog Rhanbarthol sy'n arwain ar weithredu'r Ddeddf hon i gyfarfod â'r PCRh er mwyn cyflwyno'r cynlluniau yn ystod camau cynnar eu gweithredu.

Mae Cadeirydd PCRh Cwm Taf yn aelod o'r bwrdd hwn ynghyd â'r ddau Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Felly, cawsom ddiweddariadau rheolaidd yng nghyfarfod y PCRh ynghylch y cynllun gweithredu a'r cynnydd a gafwyd. Gwnaed hon yn eitem sefydlog ar yr agenda am fod y PCRh yn teimlo bod y cyswllt yn un pwysig wrth inni symud ymlaen â'r ffocws ar yr agenda ataliol.

Ar hyn o bryd, mae Cynrychiolydd Iechyd y PCRh yn arwain ar ddarn o waith fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Rhanbarthol ar gyfer y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol gyd-gynnal asesiad o'r boblogaeth i fesur yr angen am ofal a chymorth ymhlith oedolion, plant a gofalwyr. Hefyd, byddir yn cyd-gynnal asesiad o anghenion mewn perthynas â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel rhan o'r broses hon. Mae Arweinydd y Rhaglen Cefnogi Pobl ym Merthyr Tudful yn cynrychioli'r Rhaglen honno ynghyd â Phobl Hŷn ar yr Is-grŵp Ymgysylltu sy'n ymwneud â dyletswyddau'r ddwy Ddeddf dan sylw. Bydd rhaid cysoni hyn â'r asesiadau o anghenion sy'n ofynnol ar gyfer y Rhaglen Cefnogi Pobl a gwaith y PCRh er mwyn osgoi dyblygiad. Er hynny, mae'n rhaid sicrhau bod gwybodaeth a thystiolaeth briodol ar gael i lywio penderfyniadau wrth symud ymlaen â'r cynllunio a'r comisiynu. Mae'r PCRh a'r Grwpiau Cynllunio Lleol yn cymryd rhan weithgar yn yr asesiad hwn ac yn ei borthi.

Mae Arweinydd y Rhaglen Cefnogi Pobl yn Rhondda Cynon Taf yn cynrychioli'r Rhaglen honno wrth ddatblygu Gwybodaeth, Cyngor a Chynorthwy ar gyfer y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Yn yr un modd, mae'r Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol yn cynrychioli'r Rhaglen Cefnogi Pobl ar gyfer Blaenoriaeth 2 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Gwneir hyn oll er mwyn cynyddu gallu a chydnerthedd ein cymuned leol a helpu pobl i ddiwallu eu hanghenion llesiant trwy drefniadau gwasanaeth llai ffurfiol. Byddir yn datblygu strategaeth sy'n gysylltiedig â dadansoddiad o anghenion y boblogaeth, fel y gellir meithrin a chefnogi rhwydwaith effeithiol o weithgareddau trwy law'r trydydd sector a'r mentrau cymdeithasol.

Mae'r ddau Swyddog Arweiniol o'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn aelodau o Fwrdd Gweithredol Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cwm Taf, ac mae'r Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol hefyd yn aelod o Grŵp Gweithredol Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cwm Taf.

Mae gwaith wedi mynd rhagddo i gysoni'r Rhaglenni Trechu Tlodi a'r Rhaglenni Cefnogi Pobl yn well, yn unol â chyfarwyddeb y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i integreiddio'r rhaglenni tlodi. Cynhaliodd PCRh Cwm Taf Sesiwn Gynllunio ar gyfer Trechu Tlodi a gwahoddwyd cynrychiolwyr o'r Rhaglenni Trechu Tlodi ar draws y rhanbarth. Erbyn hyn, mae'r Cynrychiolwyr Trechu Tlodi yn aelodau cyfetholedig o'r PCRh.

Defnyddir trefniadau presennol Bwrdd Cydweithio Rhanbarthol Cwm Taf a'r Byrddau Gwasanaethau Lleol i adrodd ynghylch cysylltiadau a diweddariadau, ac mae'r Cydlynnydd

Datblygu Rhanbarthol yn cyflwyno diweddariadau ac adroddiadau'r PCRh yn rheolaidd i gyfarfodydd y byrddau hyn.

Sefydlwyd un Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Cwm Taf fel un o ofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a bydd y PCRh yn gweithredu'n rhagweithiol i greu cysylltiadau â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf, y Bwrdd Partneriaeth Strategol a'r Grŵp Ymgysylltu â'r Cyhoedd. Bydd Cadeirydd newydd PCRh Cwm Taf yn eistedd ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus newydd yng Nghwm Taf yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd Bwrdd Partneriaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, a bydd hynny'n rhoi'r modd i gyflwyno adborth i'r PCRh.

6. Yn dilyn argymhellion Aylward, pa ganran o'r gwariant ar wasanaethau daliadaeth pobl hŷn sy'n niwtral, h.y. ar gael yn gyfartal i berchenogion tai, y sector rhentu preifat a thenantiaid landlordiaid cymdeithasol? Os nad yw, pa gynlluniau sydd gan y PCRh ar waith i gyflawni gwasanaethau daliadaeth niwtral ac o fewn pa amserlen?

Ar draws Cwm Taf, cynhalion ni adolygiad eang o'n holl wasanaethau ar gyfer pobl hŷn. Gwnaed hyn er mwyn sicrhau bod y cymorth sy'n gysylltiedig â thai yn cael ei wireddu, a bod y cynnydd a wnaed tuag at gwrdd ag argymhellion Aylward yn cael ei asesu. Fodd bynnag, cwblhawyd y rhain ar adegau gwahanol.

Ym Merthyr Tudful, mae gennym ddau gynllun daliadaeth niwtral: un darparwr na fydd yn derbyn cyllid ar gyfer ei wasanaethau o 2017 ymlaen, ac un darparwr sy'n ad-drefnu ei holl ddarpariaeth i greu gwasanaeth daliadaeth niwtral (ac fe fydd yn dod â chynlluniau i'r Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl i ddiwygio'r cyllid). Gofynnwyd i'r ddau wasanaeth ar gyfer pobl hŷn a oedd heb unrhyw gynlluniau i gwrdd ag argymhellion Aylward yn ystod yr adolygiad, i gyflwyno'u cynigion i'r Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl erbyn mis Medi. Mae'r Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl wedi cytuno, os na fydd ganddynt gynlluniau ar waith i fodloni'r argymhellion erbyn hynny, yna bydd eu cyllid yn dod i ben.

Yn Rhondda Cynon Taf yn dilyn canlyniad yr adolygiad, comisiynwyd Cartrefi RhCT i ddarparu gwasanaeth daliadaeth niwtral ar draws y fwrdeistref i gefnogi hyd at 500 o bobl. Bydd y gwasanaeth hwn hefyd yn darparu cymorth sy'n gysylltiedig â thai i'r 40 o drigolion a fydd yn byw yn y Cynllun Gofal Ychwanegol newydd a fydd yn agor hwyrach yn y flwyddyn.

Rhwystrau/Heriau?

Nid yw Merthyr Tudful wedi profi unrhyw rwystrau gan fod darparwyr, ar y cyfan, wedi ad-drefnu'u hunain. Bellach, mae yn y broses o asesu beth fydd yn digwydd i'r darparwyr hynny na all ad-drefnu'u hunain, a beth fydd lefel yr arian a ddyrennir i unrhyw un sydd wedi ad-drefnu ar sail yr angen am wasanaethau daliadaeth niwtral i bobl hŷn.

At ei gilydd yn Rhondda Cynon Taf, ychydig iawn o rwystrau a gafwyd i ailfodelu'r gwasanaeth newydd gyda llawer o ddarparwyr tai yn deall yr angen am wasanaeth daliadaeth niwtral. Roedd Cartrefi RhCT wedi gwneud penderfyniad i ailfodelu eu gwasanaeth tai gwarchod ac

roedd hynny o help wrth ddarparu templed i gynorthwyo darparwyr eraill a'n galluogi ni i gydweithio ar ddatblygu model gwasanaeth newydd.

Roedd tynnu arian yn ôl yn broblem i rai darparwyr bach a phryderwyd ynghylch goblygiadau ehangach y golled ariannol pe bai awdurdodau eraill yn mabwysiadu prosesau tebyg. Roedd pryderon hefyd ynghylch lefel y gefnogaeth a fyddai'n cael ei chynnig i'r tenantiaid presennol.

Sut gwnaethoch chi oresgyn y rhain?

Bydd angen i Ferthyr Tudful asesu a oes unrhyw faterion yn codi wrth fwrw ymlaen â'i gynigion.

Yn Rhondda Cynon Taf, fel rhan o gyflwyniad y gwasanaeth newydd, darparwyd cyllid trosiannol i'r holl ddarparwyr cymorth presennol er mwyn sicrhau eu bod yn cael digon o amser i addasu i'r golled ariannol a gweithredu'r gwasanaeth newydd. Roedd hefyd yn un o ofynion y contract gwasanaeth newydd y byddai'r holl gleientiaid presennol yn cael eu hasesu ac y byddent yn dal i dderbyn cefnogaeth nes yr ystyrir eu bod yn barod i adael y cynllun. Gwnaethpwyd hyn hefyd ar y cyd â threfniadau TUPE a'r angen i sicrhau bod cleientiaid yn parhau i dderbyn cefnogaeth lle bynnag y bo modd gan eu gweithiwr cymorth presennol.

Roedd Rhondda Cynon Taf hefyd yn annog pob darparwr i ymgynghori a chwrdd â defnyddwyr gwasanaeth yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn glir ynghylch y trefniadau newydd a'u bod yn dal i dderbyn cefnogaeth gan eu gweithwyr cymorth.

Roedd rhai darparwyr cymorth hefyd yn defnyddio hyn fel cyfle i adolygu ac ailfodelu eu gwasanaethau fel rhan o ymarfer arbedion effeithlonrwydd.

7. Yn rhanbarth y PCRh, pa waith cydgomisiynu sy'n cael ei wneud rhwng y Rhaglen Cefnogi Pobl a rhaglenni allweddol eraill, e.e. Cymunedau'n Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Diogelwch Cymunedol/Trais yn y Cartref? Rhestrwch y prosiect(au), yr awdurdod lleol a'r llifau arian perthnasol.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw brosiectau wedi'u comisiynu'n ffurfiol i weithio ar y cyd â rhaglenni allweddol eraill ar gyfer trechu tlodi. Fodd bynnag, mae'r PCRh wedi bod yn rhagweithiol o ran sicrhau cysylltiadau allweddol â'r rhaglenni hyn; at hynny, mae wedi ymrwymo i gydlynu'n agosach â nhw er mwyn osgoi dyblygiad, a bydd hefyd yn mabwysiadu dulliau symlach er mwyn gwella'r gwasanaeth i'n defnyddwyr.

Cam-drin Domestig

Cynhaliwyd cyfarfod gyda Ceri Breeze a Chydlynwyr Cefnogi Pobl a Cham-drin Domestig. Cafwyd trafodaethau ynglŷn â chydweithio ar draws y rhaglen a chydgomisiynu prosiectau yn y dyfodol i atal cam-drin domestig.

Cysoni'r Rhaglenni Trechu Tlodi

Mae gwaith wedi mynd rhagddo i gysoni'r Rhaglenni Trechu Tlodi a'r Rhaglenni Cefnogi Pobl yn well, yn unol â chyfarwyddeb y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i integreiddio'r

Rhaglenni Tlodi. Cynhaliodd PCRh Cwm Taf sesiwn gynllunio ar gyfer Trechu Tlodi a gwahoddwyd cynrychiolwyr o'r Rhaglenni Trechu Tlodi ar draws y rhanbarth. Prif ffocws y sesiwn oedd:

- Y Fframwaith Deilliannau Cyffredin a chreu cysylltiadau â'r Rhaglen Cefnogi Pobl
- Trosolwg o'r adolygiad strategol ar Raglenni Trechu Tlodi ar draws Rhondda Cynon Taf
- Trosolwg o'r asesiadau anghenion sy'n cael eu cynllunio ar gyfer Merthyr Tudful.

Rhwystrau/Heriau

Cam-drin Domestig

- Mae'r meini prawf ar gyfer ariannu'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn llym a phenodol o ran cymwysterau a deilliannau, ac ar hyn o bryd, nid yw'n caniatáu'r hyblygrwydd i fynd i'r afael â'r agenda ataliol trwy gydgyllido â rhaglenni eraill.
- Y trefniadau hanesyddol â'r darparwyr cyffredol.

Trechu Tlodi

- Problemau'n ymwneud â "meddylfryd seilo" ar draws y rhaglenni, a chyfathrebu.
- Mae cylch cynllunio'r ariannu yn wasgarog.
- Anawsterau wrth ymuno â rhaglenni oherwydd y gwahanol linellau amser ar gyfer ariannu – a allai Llywodraeth Cymru wneud hyn yn symlach?
- Anawsterau wrth gysylltu cynlluniau â'i gilydd gan fod pob cynllun yn meddu ar benawdau set gwahanol.
- Anawsterau wrth ddrafftio cynlluniau pan na chytunwyd ar gyllid gan y gallai hyn achosi dyblygiad rhwng rhaglenni wrth iddynt gynllunio ar adegau gwahanol.
- Ad-drefnu eang ar draws y rhanbarth - byddwn yn chwilio am gysylltiadau agos a ffyrdd o gydweithio pellach unwaith inni orffen.

Sut gwnaethon ni oresgyn y rhain?

Cam-drin Domestig

- Codi ymwybyddiaeth o'r rhwystrau gyda Ceri Breeze a bellach, cytunwyd ar hyblygrwydd o ran amodau a thelerau'r Grant Cefnogi Pobl.

Trechu Tlodi

- Y PCRh i gymryd rhan yn agendâu Trechu Tlodi ar draws Cwm Taf
- Rhannu'r holl Asesiadau Anghenion gyda'r PCRh ar gyfer cynllunio i'r dyfodol
- Gwahodd Arweinydd Trechu Tlodi i gyfarfodydd y PCRh yn y dyfodol i sicrhau bod cysylltiadau yn cael eu creu
- Edrych ar ffyrdd y gallem symud adnoddau i gysoni'r rhaglenni hyn
- Byddwn yn gweithio tuag at rannu arferion da i wella cysondeb a chwmpas
- Byddwn yn chwilio am gysylltiadau agos a ffyrdd o gydweithio pellach unwaith inni orffen.

6. Arfarnu'r PCRh

Gofynnwyd i bob Aelod, Dirprwy, Aelod Cyfetholedig ac Ymgynghorydd fynegi'u barn ar y PCRh yng Nghwm Taf. O'r 17 unigolyn a holwyd, derbyniwyd 10 ymateb. Fodd bynnag, mae 4 o aelodau'r PCRh ac 1 aelod cyfetholedig a oedd yn gynrychiolwyr o fewn y cyfnod adrodd hwn, naill ai wedi gadael y PCRh neu'n anweithgar ar hyn o bryd, ac felly, nid ydynt ar gael i gwblhau'r holiadur.

Mae'r canlynol yn grynodedb o'r ymatebion a ddaeth i law.

1) Beth ydych chi'n teimlo ein bod yn gwneud yn dda fel PCRh?

Mae PCRh Cwm Taf yn gweithio'n galed i gwmpasu'r strwythur rhanbarthol yn llawn. Ceir tystiolaeth o hyn trwy'r gwaith helaeth a wneir i ddatganoli cyfrifoldeb i ranbarthau'r Timau Cefnogi Pobl. Cyn belled ag y gwyddom, ni yw'r unig ranbarth sy'n ceisio dilyn y trywydd hwn. Rydym hefyd wedi ymrwmo i ddatblygu protocol rhanbarthol ar gyfer rhannu data mewn ymateb i'r gofynion o ran telerau ac amodau'r grant. Rydym wedi blaenoriaethu gweithio rhanbarthol ac yn parhau i gwrdd ag is-grŵp rhanbarthol i ddatblygu'r gwaith hwn.

Mae PCRh Cwm Taf wedi esblygu dros y 12 mis diwethaf i fod yn grŵp cryf sy'n cydweithio i sicrhau bod y penderfyniadau cywir yn cael eu gwneud ar gyfer yr ardaloedd hynny lle'r ydyn ni'n gweithredu. Pan grëwyd y PCRh yn gyntaf, rwy'n credu mai ni oedd un o'r grwpiau hynny oedd angen gwella'n sylweddol.

Rwy'n teimlo ein bod ni erbyn heddiw yn un o'r prif PCRhau, ac rwy'n credu y gellir priodoli hyn i'r cadeirydd ymroddedig da a gawsom yn y Cynghorydd Keiron Montague a oedd yn allweddol i'r gwelliannau a wnaed, ac i'r Cynghorydd Linda Matthews sy'n parhau â hyn yn ei rôl newydd fel cadeirydd. Yn ogystal, rydyn ni wedi cael cysondeb o ran ein Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol, sef Susan Preece, ac mae'n glir bod ei rôl hithau'n allweddol i weithrediad effeithlon y PCRh; felly hefyd, y cyfraniad ymrwymedig a wneir i'r grŵp gan ein cydweithwyr yn y Gwasanaethau Iechyd a Phrawf.

Mae aelodau'r PCRh wedi cwrdd i gytuno ymysg ei gilydd ar flaenoriaethau strategol y dyfodol, ac maent wedi defnyddio is-grwpiau a gweithgorau i symud y blaenoriaethau hyn yn eu blaen. At hynny, mae'n edrych yn rhagweithiol ar ffyrdd o uno'r Timau Cefnogi Pobl gyda'r nod o leihau dyblygiad a rheoli gwastraff.

Yn rhanbarth y PCRh, eir i'r afael â heriau trwy ddulliau integredig a chlir a weithredir gan y Rhaglen Cefnogi Pobl a'r rhaglenni allweddol eraill, e.e. Cymunedau'n Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Diogelwch Cymunedol/Trais yn y Cartref.

Mae ymrwymiad a phresenoldeb da'r aelodau ar draws ystod o sefydliadau partner wedi galluogi inni feithrin cysylltiadau gwaith mwy effeithiol, cynnal trafodaethau agored a gonest, a rhannu profiadau.

Mae cefndir yr aelodau a'u profiadau amrywiol wedi helpu ni i weld y darlun strategol ehangach ac i weld lle mae angen i'r Rhaglen Cefnogi Pobl gydweddu'n fwy effeithiol i gynlluniau a mentrau eraill, ac i gysylltiadau â Chymunedau'n Gyntaf, y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac ati.

2) Beth ydych chi'n teimlo oedd ein cyflawniadau dros y 12 mis diwethaf?

Mae diwrnodau cynllunio'r PCRh yn werth chweil ac yn ddefnyddiol. O ganlyniad i'r gwaith hwn, rydyn ni wedi nodi meysydd blaenoriaeth megis cynnwys defnyddwyr gwasanaeth, gweithio rhanbarthol, pobl hŷn, contractio a chomisiynu, a deilliannau. Fel rhan o'r gwaith hwn, comisiynwyd prosiect i gynnwys defnyddwyr gwasanaethau fel eu bod yn creu deilliannau sy'n bwysig iddyn nhw. Roedd y gwaith hwn yn adeiladu ar rwydweithiau sy'n bodoli eisoes ymhlith darparwyr ac a ddefnyddir i drosglwyddo barn a sylwadau i'r cynllunwyr a'r comisiynwyr strategol. Mae hyn wedi arwain at gynnwys blaenoriaethau'r defnyddwyr gwasanaeth yn y manylbau/contractau gwasanaeth ar draws y rhanbarth.

Rydym wedi gwneud cynnydd da wrth gwrdd ag argymhellion Aylward mewn perthynas â phobl hŷn. Mae'r PCRh wedi ad-drefnu gwasanaethau a'u hailgomisynu i gwrdd â'r gofynion yn llawn. Mae Merthyr wedi cwblhau adolygiad strategol o'i wasanaethau pobl hŷn ac mae wrthi'n awr yn cwblhau ei gynllun i'r dyfodol. Mae cynrychiolwyr y PCRh wedi cefnogi landlordiaid sy'n cael eu heffeithio gan y newid i wasanaethau'r PCRh, ac wedi hwyluso ymweliadau safle ar gyfer landlordiaid yn ardal Merthyr.

Rydym wedi cytuno i ddarparu arweiniad ar "weithgareddau a ganiateir" a fydd yn rhoi mwy o eglurder i ddarparwyr a defnyddwyr gwasanaeth.

Rydym wedi cynhyrchu cyfeiriadur rhanbarthol o'r gwasanaethau sydd ar gael.

Mae'r cysylltiadau o fewn y PCRh yn gryf ac o'r herwydd, ni chafodd newid cadeirydd ac absenoldeb hirdymor yr is-gadeirydd unrhyw effaith sylweddol ar y Pwyllgor.

Mae partneriaid y PCRh yn parhau â'u hymrwymiad i wireddu Cynllun Cefnogi Pobl Cwm Taf.

Edrychwn ar gyfleoedd i gydgysylltu a rhannu gwybodaeth, e.e. defnyddio gwybodaeth defnyddwyr gwasanaeth y Rhaglen Cefnogi Pobl i borthi Asesiad Poblogaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

3) Wrth symud ymlaen, beth allwn ni ei wneud yn wahanol?

Fel PCRh, rydym yn parhau i geisio "rhanbartholi" ymhellach ac rydym wrthi'n datblygu dull rhanbarthol at ddiffinio'r gefnogaeth sy'n gysylltiedig â thai. Wrth symud ymlaen, rydym yn ceisio datblygu dull cydlynol tuag at ffioedd rheoli, contractio a chomisiynu fel bod comisiynu ar raddfa ranbarthol yn cael ei wireddu ymhellach.

Mae angen inni barhau i deithio ar hyd y llwybr presennol er mwyn sicrhau ein bod yn symud o nerth i nerth ac yn adeiladu ar lwyddiannau'r gorffennol. Trwy hynny, gallwn ddarparu gwasanaeth mwy cydlynol ac edrych am fwy o gyfleoedd i gydgomisiynu gwasanaethau ar

draws Cwm Taf. Byddwn hefyd yn parhau â'r ymdrech i greu cysylltiadau agosach â'r agenda Trechu Tlodi a meysydd gwasanaeth eraill, fel y gallwn fodloni anghenion y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau o fewn Cwm Taf a gwneud y defnydd gorau o adnoddau'r Rhaglen Cefnogi Pobl.

Nid ydym wedi cyflawni cydgomisiynu hyd yma: mae hyn yn rhywbeth y dylem geisio ei gyflawni yn ystod y 12 mis nesaf. Byddwn ni hefyd yn ceisio datblygu cydgomisiynu â rhaglenni cyllido eraill.

Byddwn yn parhau i adolygu dulliau ar gyfer pennu anghenion a deilliannau'r defnyddwyr gwasanaeth. Byddwn hefyd yn ymchwilio i ddulliau o ymgysylltu mwy â darparwyr mewn perthynas ag anghenion y defnyddwyr gwasanaeth a deilliannau dymunol.

8. Taflen Bresenoldeb y PCRh

Mae'r daflen bresenoldeb ar gyfer cyfarfodydd y PCRh yn 2015/2016 wedi'i hatodi fel dogfen ar wahân.